Cynllun Buddsoddi Cronfa Gofal Integredig Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2021-22

Cyf	Maes blaenoriaeth	Dyraniad Cronfa Gofal Integredig (ICF)	ICF Rhanbarthol Gogledd Cymru Dyraniad (Talgrynwyd)	Cyllideb wedi'i dyrannu	Gwariant rhanbarthol £	Gwariant rhanbarthol %	Gwerth Cymdeithasol £	Gwerth Cymdeithasol % (Nod 20%)	Cymorth UNIONGYRCHOL i Ofalwyr £	Cymorth UNIONGYRCHOL i Ofalwyr %	Cymorth ANUNIONGYRCHOL i Ofalwyr £	Cymorth ANUNIONGYRCHOL i Ofalwyr %
P3	Pobl hŷn ag anghenion cymhleth	9,567,262	9,567,000	9,286,159	5,577,275	58%	794,305	8%	2,992,938	31%	6,293,221	66%
P2	Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag Anghenio	4,251,381	4,251,000	4,128,883	406,171	10%	737,658	17%	1,532,676	36%	2,603,366	61%
P1	Plant sydd mewn perygl o ddod yn blant sy'n de	3,188,535	3,189,000	3,105,921	497,651	16%	510,357	16%	963,015	30%	2,142,906	67%
P7	Capasiti / Isadeiledd Rhanbarthol			599,837	0	0%	0	0%	0	0%	0	0%
P4	Pobl â Dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	2,152,633	2,153,000	2,039,200	0	0%	620,527	29%	762,269	35%	1,276,931	59%
P8	Llety diogel i blant ag anghenion cymhleth, anghenion emosiynol ac ymddygiad lefel uchel	450,000	450,000	450,000	0	0%	0	0%	0	0%	0	0%
P5	Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig	652,000	651,800	651,800	0	0%	0	0%	0	0%	0	0%
		20,261,811	**20,261,800**	**20,261,800**	**6,481,097**	**32%**	**2,662,847**	**13%**	**6,250,898**	**31%**	**12,316,424**	**61%**
		20,261,811	**20,261,800**	**0**	**6,481,097**	**32%**	**2,572,333**	**13%**	**6,053,679**	**31%**	**11,933,695**	**59%**

Y TU ALLAN I'R GRONFA GOFAL INTEGREDIG (Gwaelodlin)

Cyf	Maes blaenoriaeth	Dyraniad Cronfa Gofal Integredig (ICF)	Cyllideb wedi'i dyrannu
N1	Iechyd a Lles Emosiynol	200,000	200,000
N2	Gwasanaethau Asesiadau Cof - Dementia	678,000	678,000
N3	Potyn Dementia Cenedlaethol	120,796	120,796
		998,796	**998,796**

Cynllun Buddsoddi Cronfa Gofal Integredig Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2021-22

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Dewisiadau Amgen i Lety Diogel** Datblygu dull mwy ataliol o helpu pobl ifanc dros 16 oed sydd mewn perygl y bydd eu lleoliad yn methu neu'n wynebu digartrefedd.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £451,408, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Cymorth i Deuluoedd	**Cyfarfodydd Grŵp Teuluoedd** Darparu cyfarfodydd grŵp teuluoedd (cynadleddau) i weithio gyda theuluoedd er mwyn iddynt fod yn rhan allweddol o'r penderfyniadau y mae angen eu gwneud i leihau'r risg neu ymateb i broblemau eraill sy'n gwaethygu.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £31,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Asesiad a Diagnosis	**Tîm Amlddisgyblaeth Ymddygiad Rhywiol Problemus / Niweidiol** Nod y prosiect yw creu tîm integredig amlasiantaeth a fydd yn cynnig cymorth ac yn helpu cydlynu achosion o ymddygiad rhywiol problemus a niweidiol. Ers rhai blynyddoedd, mae Gwasanaethau Plant Gwynedd, ynghyd â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, wedi gweithio i ddatblygu gweithlu a strategaeth ymarfer sydd wedi eu galluogi i ehangu eu gallu i glustnodi, asesu a darparu ymyrraeth gynnar i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd lle mae ymddygiad rhywiol problemus / niweidiol yn bryder.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £161,750, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Presgripsiynu Cymdeithasol	**Cysylltwr Cymunedol Plant** Bydd gan y Cysylltwr Cymunedol ran allweddol i'w chwarae o ran cyfrannu at arbenigedd y tîm mewn perthynas â'r trydydd sector/sector gwirfoddol, gan godi ymwybyddiaeth am wasanaethau eraill a chyfeirio pobl atynt. Bydd deiliad y swydd hon yn cydweithio'n agos â deiliad y swydd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n dod o dan y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar hyn o bryd, a bydd yn ychwanegu gwerth at y rôl gyfyngedig y gall deiliad y swydd ei gwneud. Mae IAA Gwynedd yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, cadw'n gyfredol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau gwybodaeth, cyngor a chymorth statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat sydd ar gael yn yr ardal. Dylai pawb, gan gynnwys gofalwyr, allu cael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau a chael cymorth a chyngor prydlon, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r hyn y gallant ei ddisgwyl fel ymateb gan y gwasanaeth. Dylai trefniadau fod yn effeithiol o ran oedi neu atal yr angen am ofal a chymorth. Dylai pobl fod yn ymwybodol o bwyntiau cyswllt allweddol a gallu eu defnyddio'n rhwydd. Dylai'r gwasanaeth wrando ar bobl a sicrhau bod unrhyw gyswllt yn dechrau drwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £86,290, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Cydlynydd Asedau Lleol** Sicrhau bod cymorth ar gael o fewn y gymuned fel bod gwasanaethau gofal a chymorth ac ataliol hygyrch ar gael i bob teulu. Dyma fydd nodau'r gwasanaeth: • Bydd y prosiect yn gweithio i "gyfrannu tuag at atal neu oedi datblygiad angen pobl am ofal a chymorth". • Lleihau'r galw a'r angen i deuluoedd gael gafael ar wasanaethau statudol. • Cynyddu cadernid a chymorth unigol. • Creu cymunedau cryf. • Cynyddu ein gallu i ymgysylltu â chymunedau a'r cyhoedd. • Rhannu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. • Darparu gwasanaethau a sicrhau presenoldeb lleol. • Cryfhau ein gallu i ymgysylltu â'r teuluoedd anoddaf i'w cyrraedd. • Llunio achos a gwerthu'r syniad bod gwasanaethau ataliol yn gadarnhaol ac yn arferol. • Cymryd golwg amlasiantaeth a rhyng-adrannol ar fywydau teuluoedd. • Sicrhau fod yna wynebau cyfarwydd yn y gymuned. Dylai hyn greu ymdeimlad o berthyn rhwng y gweithiwr a'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb maes o law. Bydd y prosiect yn datblygu ar y Canolbwyntiau Cymunedol sydd eisoes wedi'u sefydlu o fewn y Gwasanaethau Oedolion. Bydd y canolbwyntiau yn adnoddau pwysig i asiantaethau/gwasanaethau ddatblygu presenoldeb amlycach yn y gymuned. Llwyddodd rhaglen beilot fechan yn Ysgol Cybi ac Ysgol Uwchradd Caergybi i hyrwyddo ymyrraeth gynnar a chynnig cyfle i blant a'u teuluoedd ymgysylltu â gwasanaethau ar y cam cynharaf posib.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £33,322, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Cymorth wedi'i Dargedu i Blant ag Anghenion Cymhleth** Gweithwyr cymdeithasol ychwanegol i ddarparu cymorth uniongyrchol i blant ag anghenion cymhleth ar ffiniau gofal.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £86,131, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Mynediad at Wasanaethau	**Gwasanaethau Plant - Bodloni Anghenion Plant ar Ffiniau Gofal** Darparu pecynnau gofal a chymorth i blant ar ffiniau gofal.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £260,092, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Perthnasoedd Iach** Helpu ac addysgu plant a rhieni/gofalwyr sydd wedi wynebu neu sydd mewn perygl o wynebu ymddygiad rhywiol problemus a niweidiol, camfanteisio ar blant a thrais domestig. • Bydd ysgolion a BIPBC yn cynnig cymorth i adnabod plant, pobl ifanc a theuluoedd. • Bydd sefydlu Canolbwynt Cymorth Cynnar ar Ynys Môn yn darparu porth i wneud penderfyniadau am atgyfeirio i'r gwasanaeth hwn ar sail amlasiantaeth. • Byddwn yn gweithio i gryfhau gwaith partneriaeth gyda rhaglenni eraill (Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, TRAC ac OPUS), Addysg, Tai, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd a sefydliadau Gwerth Cymdeithasol eraill. • Datblygu gwasanaethau cymorth emosiynol ac ymarferol priodol ar gyfer rhieni pobl ifanc y cam-fanteisiwyd arnynt yn rhywiol neu'n droseddol. • Llunio a chynnal perthnasoedd cefnogol a grymusol gyda rhieni a effeithiwyd gan CSE a CCE, er mwyn meithrin eu hunan-barch, eu hyder, eu gwybodaeth a'u gwytnwch, a'u galluogi i gynnal yr uned deuluol a diogelu eu plentyn yn effeithiol. • Nodi anghenion unigol rhieni/gofalwyr a gweithio tuag at fodloni'r anghenion hynny. • Ymgymryd â rôl eiriolwr ar gyfer rhieni unigol. • Hwyluso a galluogi rhieni i ddatblygu rhwydweithiau hunan-gymorth ac eirioli. • Nodi a darparu strategaethau i'w gwneud yn bosib gwyro a diogelu plant rhag camfanteisio drwy waith atal gyda rhieni/gofalwyr a hyfforddiant gyda gweithwyr proffesiynol eraill. • Datblygu gwaith partneriaeth i helpu datblygu arferion da. • Darparu gweithdai hyfforddi ar faterion sy'n ymwneud â helpu rhieni plant y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt mewn amrywiaeth o leoliadau. • Herio rhagfarn a chodi ymwybyddiaeth o'r problemau y mae rhieni a theuluoedd plant a phobl ifanc y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol yn eu hwynebu, drwy gyflwyno sgyrsiau a hyfforddiant i unigolion, grwpiau a gweithwyr proffesiynol eraill. • Cynghori gweithwyr proffesiynol eraill am faterion arferion da sy'n gysylltiedig â gweithio gyda rhieni pobl ifanc y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol ac yn droseddol. • Cymryd rhan ym mhrosesau'r Fframwaith Asesu Cyffredin, y Tîm o Amgylch y Teulu a phrosesau cymorth ffurfiol eraill ar gyfer rhieni/gofalwyr a phlant/pobl ifanc yn ôl y gofyn.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £51,861, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Estyn Llaw *(Helping Out)*** Bydd y prosiect yn cynnig cymorth ataliol i oedi/atal anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol rhag gwaethygu yn y dyfodol, ac yn lleihau'r angen am wasanaethau statudol yn y dyfodol. • Gwella iechyd emosiynol, lles meddyliol a gwytnwch plant a theuluoedd. • Hyrwyddo ffyrdd mwy iach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd. • Helpu pobl ifanc ag anghenion gofal a chymorth wrth iddynt symud ymlaen i wasanaethau oedolion. • Bydd yn galluogi rhieni/gofalwyr i fod yn fwy gwydn, yn canfod a llunio cysylltiadau ag amrywiaeth o adnoddau cymunedol ac yn datblygu ffyrdd cadarnhaol o fodloni anghenion y plant a'u hanghenion eu hunain fel rhieni/gofalwyr. • Bydd y broses atgyfeirio yn cael ei chynnal gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r teulu, ac mae cymhwysedd yn dibynnu ar gadarnhad o Asesiad Gofalwyr drwy Teulu Môn neu Cynnal Gofalwyr. • Annog a datblygu sgiliau hunan-gymorth ac annibyniaeth unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol. • Bydd y prosiect yn gweithredu system 'dalebau' a fydd yn helpu teuluoedd wneud defnydd cadarnhaol o gyfleoedd am seibiannau byr drwy gynnig llu o gyfleoedd am gyfnod cyfyngedig. Bydd hyn yn cynnwys: § Grantiau i ofalwyr/teuluoedd. Hyd at £400 tuag at gostau gweithgareddau chwaraeon a hamdden a fydd yn rhoi seibiant i bawb ac yn datblygu sgiliau a phrofiadau. Gall hyn gynnwys gwyliau, aelodaeth o glybiau, cymorth a chludiant i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol. § Cymorth ychwanegol i gyflwyno gweithgareddau newydd i deuluoedd a'u galluogi i gymryd rhan ynddynt a mynychu grwpiau cymdeithasol integredig fel Cylch Teulu, Creu Gwên ac ati. § Gwyliau gyda'n Gilydd. Hyd at £150 tuag at gostau diwrnod allan, tripiau wedi'u trefnu a gwyliau dros nos i'r teulu.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £27,139, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Iechyd a Lles Emosiynol	**Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal** Bydd y prosiect yn ceisio gwella'r gwasanaeth i alluogi lleoliadau gofal i barhau'n iach ar gyfer plant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys: Ymyrraeth gynnar, ymyriadau lles emosiynol, Bwyta'n iach, Ymarfer corff a ffordd iach o fyw, Iechyd a lles rhywiol, Perthnasoedd ac ati. Mae'r prosiect yn ymestyn i gynnwys plant mewn cartrefi preswyl a phrosesau pontio esmwyth ar draws ffiniau ac o fewn Ardal leol y Bwrdd. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, sy'n gyfrifol am leoli a chefnogi plant a phobl ifanc mewn gofal. Mae rhai plant yn cael eu lleoli gydag aelodau teulu, ac mae rôl y Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal yn hanfodol i les corfforol ac emosiynol y plant yn y lleoliadau hynny a phob lleoliad gofal. Mae'r Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal yn gweithio ochr yn ochr â CAMHS i sicrhau gwasanaethau cymorth emosiynol ac iechyd meddwl o ansawdd dda yn brydlon ac yn ôl yr angen. Hyfforddiant ac addysg bellach ar gyfer gwasanaethau eraill sy'n gweithio fel rhan o'r tîm integredig. Bydd trefnau monitro a gwerthuso cadarn yn sicrhau ansawdd rhagorol.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £56,527, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Mapio Bywyd Plentyn** Mae mapio llwybr plentyn yn ei gwneud yn bosib i deuluoedd gael gwell mynediad at y gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir. Drwy ganfod ffyrdd o wella'r gwasanaeth, bydd hefyd yn canfod ffyrdd o weithio'n integredig drwy lwybrau plant a theuluoedd. Bydd yn canfod y rhwystrau y mae teuluoedd yn eu hwynebu gyda'r system gyfredol ac yn nodi sut y gallant osgoi dyblygiad a bod yn fwy effeithlon.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £30,472, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Teuluoedd Cadarn** Nodau craidd y Tîm Teuluoedd Cadarn yw Atal, Dychwelyd, Lleihau ac Adolygu: • Atal plant rhag gorfod derbyn gofal pan nad yw hynny'n angenrheidiol (ymyrraeth 'ffiniau gofal'). • Dychwelyd plant i'w cartrefi yn ystod 8 wythnos gyntaf y gofal a gweithio gyda theuluoedd a glustnodwyd i'w hailuno â'u plant o ofal. • Lleddfu natur y llety/gofal y mae Plant sy'n Derbyn Gofal ei angen (e.e. o ofal preswyl i ofal maeth i deulu i ddiddymu'r gofal). • Adolygu'r broses o ddychwelyd plant mewn gofal hirdymor yn ddiogel. • Cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaethau a'r cynllunio ataliol y mae teuluoedd yn eu derbyn gan y gweithlu ehangach. • Atal plant rhag dod yn Blant sy'n Derbyn Gofal. • Atal anghenion gofal rhag gwaethygu o ganlyniad i atal methiannau lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. • Byddwn yn gweithio i leihau'r angen am ofal a chymorth ac yn hybu'r cyfle i deuluoedd fagu eu plant (lle bo hynny'n gyson â lles y plentyn).	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £101,964, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Gweithiwr Ymyrraeth Ddwys Camdriniaeth Ddomestig** Y nod gyffredinol yw rhoi diwedd ar y trais a'r gamdriniaeth o fewn teuluoedd a sicrhau fod pob aelod o'r teulu yn fwy diogel. Drwy ganolbwyntio ar y berthynas rhwng pob aelod o'r teulu a sicrhau bod y plant wrth wraidd yr ymyrraeth, y nod yw gwella cyfathrebu a lles ymysg y teulu, gan gynnwys effaith trais a chamdriniaeth ddomestig ar sut y mae'r teulu'n gweithredu. Diogelu plant yn fwy effeithiol a sicrhau fod teuluoedd, rhieni a gofalwyr yn fwy cadarn, gyda gwell lles emosiynol, yn ogystal â sicrhau bod perthnasoedd o fewn y teulu yn fwy sefydlog. Gwella ansawdd yr ymyriadau a ddarperir i deuluoedd sy'n wynebu cyfuniad o gamdriniaeth ddomestig, problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Ymchwilio a sefydlu model newydd o ymyrraeth a sicrhau y gellir ail-fuddsoddi'r arian a wariwyd ar leoliadau drud mewn gwasanaethau cadarnhaol, ataliol. Rhannu gwybodaeth a chanfyddiadau gydag asiantaethau partner allweddol. Bydd Gorwel a Heddlu Gogledd Cymru yn helpu darparu'r ymyrraeth. Bydd Gweithiwr Ymyrraeth Ddwys Camdriniaeth Ddomestig yn gweithio gyda theuluoedd lle nodwyd mai camdriniaeth ddomestig yw'r prif ffactor risg ar gyfer y plant. Bydd y model ymyrraeth hwn wedi'i seilio ar gryfderau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gadw'r plant a'r dioddefwyr yn ddiogel a gweithio tuag at newid ymddygiad cyflawnwyr camdriniaeth ddomestig. Bydd teuluoedd a atgyfeirir at y gwasanaeth yn cael cynnig ymyrraeth ddwys a fydd yn asesu'r risg ac yn cynllunio ar gyfer diogelwch pob aelod o'r teulu. Bydd y rhaglen hefyd yn cynnwys y teulu mewn strategaethau newydd ar gyfer datrys gwrthdaro o fewn teuluoedd, gan adeiladu ar gryfderau presennol a gosod nodau mewn perthynas â'r newidiadau y mae angen eu gwneud i gadw'r plant yn ddiogel.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £44,200, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Cymorth i Deuluoedd	**Cynadledda Grŵp Teulu** Ehangu'r gwasanaeth Cynadledda Grŵp Teulu i hyrwyddo a darparu CGT i deuluoedd plant sy'n derbyn gofal, a hynny ar ffiniau gofal ac yn fwy ataliol.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £99,100, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atebion Llety	**Llety â Chymorth** Darparu 5 Lleoliad Llety â Chymorth allanol y flwyddyn a 200 o nosweithiau gwely brys ar 'Night Stop'.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £39,476, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Gwasanaeth Dychwelyd ac Atal** Darparu gwasanaeth therapiwtig uniongyrchol i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys lleihau'r angen am, a'r nifer o leoliadau drud y tu allan i'r Sir, a helpu datblygu darpariaeth ofal leol o ansawdd uchel i blant Gogledd Cymru. Osgoi chwalu teuluoedd, gan gynnwys teuluoedd mabwysiadol, sy'n arwain at yr angen am Leoliad Plant sy'n Derbyn Gofal. Bydd y Darparwr yn cynnig gwasanaeth therapi ymyrryd ac atal yn gynnar i blant, pobl ifanc a'u gofalwyr, gyda'r nod o leihau'r perygl o chwalu teulu neu leoliad.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £497,651, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2016
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Cymorth i Deuluoedd	**Ap MOMO** Mae MOMO (*Mind of My Own*) yn Ap i helpu plant diamddiffyn (sy'n cael gofal a chymorth, sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal / gadael gofal) i gyfathrebu gyda'u gweithwyr cymdeithasol a'u Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol (ISRO), i leisio eu barn ac i gymryd mwy o ran yn eu gofal.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £12,885, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Bwyd Da Môn** Nod y prosiect hwn yw gweithio gydag archfarchnadoedd ar Ynys Môn i leihau gwastraff bwyd a dibyniaeth ar fanciau bwyd. Bydd y prosiect yn gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i gael gafael ar ddewisiadau bwyd wythnosol sy'n cynnig mwy o werth am arian. Er enghraifft: Fel aelod o BDM, gall teulu dalu £5 i mewn i'r cynllun a chael gwerth £20 o fwyd.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £25,245, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	**Rheoli Rhaglenni** Helpu cyflwyno rhaglen y Gronfa Gofal Integredig (ICF).		Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £7,323, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	**Cymorth Prosiectau** Helpu cyflwyno rhaglen y Gronfa Gofal Integredig (ICF).		Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £48,756, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Aros Gartref / Dychwelyd Adref	**Prosiect Diana** Cymorth tymor byr i blant ag anghenion cymhleth yn eu cartrefi eu hunain er mwyn iddynt gael dod adref o'r ysbyty yn ddiogel neu osgoi gorfod mynd i'r ysbyty.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £13,768, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atebion Llety	**Arosfa** Gwasanaeth ychwanegol i ddarparu mwy o lety i bobl ifanc ag anghenion cymhleth yn hytrach na'u hanfon i leoliad y tu allan i'r sir. Bydd cyllid refeniw yn cael ei ddefnyddio i staffio 2 ystafell wely ychwanegol ar sail tymor byr a thymor hwy.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £200,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Mynediad at Wasanaethau	**Swyddog Cymorth i Ofalwyr - Hergest, YG** Bydd y prosiect yn ariannu Swyddog Cymorth i Ofalwyr 0.4 WTE yn Hergest (yr Uned Iechyd Meddwl). Bydd y Swyddog Cymorth i Ofalwyr ar y ward iechyd meddwl acíwt yn ein galluogi i ddarparu Gwybodaeth a Chyngor penodedig yn ogystal ag eiriolaeth ar lefel isel yn ystod y cyfnod anodd hwn. Byddai hyn yn cynnig y cymorth angenrheidiol, boed hynny'n emosiynol, yn wybodaeth, yn grantiau, neu'n gymorth gyda budd-daliadau, ac yn sicrhau hefyd bod pob gofalwr yn cael eu nodi. Bydd y Swyddog yn cysylltu â'r cymorth presennol o fewn y Gymuned, p'un a yw'n cael ei ddarparu gan Hafal neu Dîm Iechyd Meddwl Gwynedd, ac yn sicrhau bod cymorth parhaus ar gael iddynt gan y gwasanaethau arbenigol o fewn y gymuned.	Pennaf: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £13,200, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atebion Llety	**Dewisiadau Seibiant Plant** Ehangu amrediad a nifer y dewisiadau o ran lleoliadau seibiant i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £55,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atal a Chymorth Cynnar	**Cymorth i Ofalwyr Ifanc YG** Fe hoffem gynnal prosiect peilot a fyddai'n ariannu Swyddog Cymorth rhan-amser i Ofalwyr Ifanc yn Ysbyty Gwynedd. Mae yna Swyddog Cymorth i Ofalwyr yn yr ysbyty ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion, sydd wedi bod yn llwyddiant mawr, ond nid oes gweithiwr ar gael yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofalu. Oherwydd y diffyg atgyfeiriadau a gawn gan weithwyr iechyd proffesiynol o'r ysbyty, teimlwn fod hwn yn angen nas diwallwyd a bod adnabod a helpu gofalwyr ifanc pan fo un o'u hanwyliaid yn gorfod mynd i'r ysbyty yn hanfodol. Drwy ein hymyrraeth, byddwn yn cynnig cymorth emosiynol a strategaethau ymdopi i ofalwyr ifanc allu rheoli agweddau mwy heriol eu rôl. Hefyd, byddwn yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill o fewn yr ysbyty, er mwyn i ofalwyr ifanc gael eu hystyried gymaint â'r person sy'n cael gofal, a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.	Pennaf: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £17,200, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Mynediad at Wasanaethau	**Gweithiwr Cymorth Oedolion mewn Perygl** Cymorth ymarferol dwys i unigolion, gan gynnwys unigolion ag anawsterau dysgu ag anableddau dysgu lefel isel. Bydd y cymorth yn ceisio hybu iechyd a lles, mynediad at wasanaethau, lleihau'r risg i'r angen waethygu ac ati.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £37,300, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Iechyd a Lles Emosiynol	**Amser Ni** Mae Amser Ni yn brosiect newydd gan Derwen a Gwasanaethau Arbenigol Plant Ynys Môn i ddatblygu ymhellach y continwwm o seibiannau byr i blant anabl. Er bod rhai agweddau ar seibiannau byr eisoes yn cael eu darparu drwy gyllid presennol, mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu system gyfeillio ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd, a chronfa o weithwyr i ddatblygu'r uned seibiannau preswyl byr. Nod y system gyfeillio yw helpu gyda thasgau ymarferol, boed hynny'n helpu i wneud neges bob wythnos, helpu i baratoi prydau bwyd yng nghartrefi'r unigolion neu ddarparu seibiant i frodyr a chwiorydd. Mae hwn yn ddatblygiad pellach i swydd y swyddog seibiannau byr, lle'r ydym wedi adnabod, drwy ymchwilio a sefydlu'r broses, bod y strwythur gwirfoddoli'n cynnig llwybr clir i blant anabl a'u teuluoedd gael mynediad at wasanaeth seibiannau byr. Diben y cyllid ar gyfer y gronfa o weithwyr i'r uned breswyl yw darparu system staffio fwy hyblyg yn ychwanegol at staff sefydledig yr uned. Bydd hyn yn galluogi'r uned i gynyddu nifer y staff ar gyfer plant mwy cymhleth, lle nodwyd anghenion ychwanegol drwy asesiad risg, ac felly'n galluogi mwy o blant i ddod i gael gofal yn yr uned ar yr un pryd. Bydd hefyd yn helpu parhad y gwasanaeth a'r hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer gwyliau ac absenoldeb salwch staff.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £192,864, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Asesu a Diagnosis	**Canolfannau Datblygiad Plant - Integreiddio o fewn Canolfannau Plant Sir Ddinbych** Sicrhau y gall plant rhwng 0 a 5 oed gael gafael ar ystod o gymorth gan y Tîm amlasiantaeth, sy'n cynnwys Iechyd a'r ALl. Cynyddu meini prawf cymhwyso nad ydynt wedi'u seilio ar oediad gwybyddol, ond yn hytrach ar oediad mewn 2 neu fwy o feysydd datblygiadol. Hybu ymyrraeth gynnar a diagnosis, pan fo hynny'n berthnasol. Cefnogi pontio mewn ysgolion a chyfleoedd cynnar. Cynyddu'r cymysgedd sgiliau i gynnwys swydd Gweithiwr Cymdeithasol cyswllt.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £296,625, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Asesiad a Diagnosis	**Anableddau Dysgu ac Anghenion Cymhleth Plant** Cefnogi a galluogi plant a phobl ifanc sydd ag Anableddau Dysgu ac anghenion cymhleth o fewn eu cymunedau lleol. Lleihau'r risg o chwalu teulu ac anfon plant a phobl ifanc i leoliadau y tu allan i'r sir.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £419,230, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Presgripsiynu Cymdeithasol	**Llywiwr Cymunedol** Mae Llyw-wyr Cymunedol yn cysylltu dinasyddion â ffynonellau cymorth a chyfleoedd yn y gymuned. Maent wrth wraidd eu cymunedau, yn datblygu gwybodaeth a chymorth. Canolbwyntir ar gynyddu annibyniaeth a grymuso dinasyddion. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu'r prosiect ymhellach.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £34,500, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Iechyd a Lles Emosiynol	**Tîm Effaith** Mae Therapi Cyfathrebu Awtistiaeth Cyn Ysgol (PACT) a Therapi Cerddoriaeth Rhyngweithiol (IM, neu Therapi Rhyngweithiad Cerddorol, y ceir manylion amdano isod) ill dau wedi'u dylunio i wella "symptomau" craidd awtistiaeth drwy geisio adfer prosesau datblygu naturiol. Mae'r rhiant a'r therapydd yn cydweithio fel partneriaid gan ddefnyddio adborth dros fideo i ddehongli patrymau cyfathrebu'r plentyn, sy'n aml yn ddyrys, ac yn canfod ffyrdd i ymateb a fydd yn helpu'r plentyn i ryngweithio a datblygu dulliau cyfathrebu mwy eglur. Mae PACT yn rhoi'r rhieni yn gadarn wrth wraidd helpu eu plentyn, gan geisio rhoi sgiliau newydd iddynt i ddod i ddeall sut mae eu plentyn yn cyfathrebu, i'w grymuso gyda ffyrdd o ymateb a chodi eu hysbryd a magu eu hyder. Caiff rhieni eu grymuso i ddod i ddeall eu plentyn yn well a dysgu sut i gefnogi eu datblygiad. Mae hybu profiadau rhyngweithio cadarnhaol rhwng rhiant a phlentyn yn debygol o leihau gofid y rhiant ac ymddygiad heriol y plentyn. Mae gweithio gyda rhieni hefyd yn gadael i newidiadau buddiol mewn rhyngweithio lifo i fywyd bob dydd y plentyn, sef cyd-destun dysgu sgiliau cymdeithasol cynnar fel arfer.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £177,126, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Medi 2017
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atal a Chymorth Cynnar	**Teleofal** Cefnogi datblygiad ein gwasanaeth Teleofal er mwyn gwella ein gwasanaeth ataliol a rheoli risgiau'n gadarnhaol o fewn y gymuned. Cynyddu lefel y cymorth sydd ar gael i bobl ag anabledd dysgu i'w galluogi i fod yn fwy annibynnol.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £65,800, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Mynediad at Wasanaetha u	**Gwasanaeth Anabledd Integredig** Integreiddio gwasanaethau yn well ar draws pob darparwr er mwyn cynnig ymagwedd ddi-dor i deuluoedd, gwella cymorth i ofalwyr/ gofal seibiant a gofal plant/ gwybodaeth, cyngor a chymorth.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £51,500, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Cymorth i Deuluoedd	**Cartref Grwpiau Bychain Arbenigol** Galluogi pobl ifanc ag anghenion cymhleth i aros gyda'u teulu biolegol cyn hired ag y bo modd, ac osgoi gorfod troi at leoliadau 'Tu Allan i'r Sir' arbenigol fel yr unig ddewis os bydd teulu'n chwalu. Byddai'r Cartref Grwpiau Bychain Arbenigol yn:- • Gallu cynnig dewis 'rhannu gofal' i unigolion a theuluoedd er mwyn ceisio atal chwalu'r teulu'n gyfan gwbl • Rhoi cyfle i'r person ifanc ddatblygu sgiliau a chael profiadau newydd a allai eu galluogi i symud ymlaen i lety â chymorth arall er mwyn bodloni eu hanghenion unigol • Gallu darparu gofal tymor hwy a'r cyfle i weithio mewn partneriaeth yn gynharach gyda'r Gwasanaethau Anabledd Dysgu i Oedolion er lles y bobl ifanc a glustnodir, i'w helpu drwy'r broses bontio. • Gallu bod ar gael i fodloni anghenion pobl ifanc eraill sydd ag anghenion gofal a chymorth cymhleth, yn dibynnu ar eu hanghenion asesedig. Byddai tîm bychan o weithwyr gofal preswyl yn gweithio yn y Cartref Grwpiau Bychain Arbenigol i sicrhau dilyniant yng ngofal y person ifanc.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £84,916, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Mynediad at Wasanaethau	**Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Blant a Theuluoedd** Darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth arbenigol i deuluoedd plant ag anghenion iechyd cymhleth, anableddau, ymddygiad heriol neu iechyd meddyliol ac/neu emosiynol gwael.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £30,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Mynediad at Wasanaethau	**Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Lles** Nod gyffredinol y prosiect hwn yw sefydlu tîm amlasiantaeth anableddau dysgu drwy'r sir gyfan, sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth, cyngor, cymorth a chefnogaeth bwrpasol i gyflawni deilliannau lles ein dinasyddion ar y gofrestr AD. Bwriad y cymorth yw cynnig cyfleoedd yn y gymuned i unigolion a grwpiau, a sefydlu gwasanaethau newydd sy'n canolbwyntio ar wella lles, yn emosiynol ac yn gorfforol. Bydd y prosiect yn nodi'r anghenion allweddol a'r gwasanaethau y mae eu hangen ledled y sir er mwyn cyflawni amrywiaeth eang o ddeilliannau lles ar gyfer ein dinasyddion ar y gofrestr AD. Bydd yn cynnig cymorth pwrpasol yn y gymuned i unigolion er mwyn darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth a gweithgareddau i wella lles unigol. Bydd yn gwerthuso'r deilliannau a gyflawnir o ganlyniad i ddarparu gwasanaethau ar lefel ataliol a chymunedol. Bydd hefyd yn datblygu gwybodaeth am 'beth sy'n gweithio' wrth gydweithio gyda'n dinasyddion yn y gymuned i wella eu deilliannau lles unigol. Bydd y prosiect hefyd yn cwmpasu ac yn gwerthuso 'beth sy'n gweithio' ac yn dod i ddeall a mynd i'r afael â'r bwlch presennol yn y gwasanaethau a ddarperir.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl â dementia	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £389,197, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal	Atal a Chymorth Cynnar	**Gwasanaeth Cryfhau Teuluoedd - Conwy a Sir Ddinbych** Atal plant â phroblemau ymddygiad ac emosiynol heriol sylweddol rhag cael eu rhoi mewn gofal preswyl arbenigol neu ofal maeth annibynnol.	Pennaf: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £1,009,408, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Asesiad a Diagnosis	**Tîm Cyswllt Acíwt** Bydd y nyrs a'r nyrs feithrin arbenigol yn helpu rhieni / gofalwyr a staff gofal acíwt er mwyn gallu bodloni anghenion penodol y grŵp hwn o blant a phobl ifanc tra byddant yn yr ysbyty, a phan fo plentyn neu berson ifanc ag anableddau angen asesiadau meddygol ar sail iechyd. Er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd plant ag anableddau yn cael eu bodloni'n briodol os bydd rhaid iddynt fynd i'r ysbyty, a thrwy hynny wella eu hadferiad a'u hwyluso i ddod adref o'r ysbyty, bydd y gwasanaeth yn cynnig ac yn galluogi'r canlynol: • Asesiad cyfannol amserol i'r plentyn a'r gofalwr • Ymyrraeth ataliol wedi'i dargedu ar sail asesiad • Mewngymorth i staff ysbytai er mwyn gwella'r gofal a chymorth i rieni / gofalwyr pan fydd eu plentyn yn yr ysbyty, gan sicrhau'r cynllun gorau iddynt ddod adref o'r ysbyty yn amserol. • Allgymorth i blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr pan fo angen archwiliadau meddygol ymchwiliol neu lawdriniaeth. • Mynediad at gyfleoedd sydd ar gael i bob plentyn.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £78,053, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Awst 2017
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atebion Llety	**Seibiant Ychwanegol - y Sector Gwirfoddol** Mae'r prosiect hwn yn darparu cymorth seibiant ychwanegol o amrywiaeth o ddewisiadau seibiant creadigol a hyblyg i blant ag anghenion cymhleth. Nod y prosiect yw bodloni anghenion seibiant penodol plant a phobl ifanc, er mwyn gwella iechyd a lles y bobl ifanc a gefnogir ynghyd â'r teuluoedd, y gofalwyr a'r teuluoedd maeth pan fo hynny'n berthnasol. Mae cyllid yn ei gwneud yn bosib prynu darpariaeth seibiant uniongyrchol, gan gynnwys gweithgareddau grŵp teuluol ac unigol, tripiau dydd a gwyliau byr gan ddarparwyr trydydd sector arbenigol.	Pennaf: Gofalwyr, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £112,878, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atal a Chymorth Cynnar	**Cynnydd ac Atal** Cefnogi cynnydd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau / cefnogaeth deg - symud ymlaen. Mae'r prosiect yn darparu asesiad Therapi Galwedigaethol arbenigol a chymorth cyfyngedig o ran amser sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, i alluogi pobl i ddysgu sgiliau newydd a dod yn fwy annibynnol. Mae'r prosiect hwn yn cynrychioli cam nesaf y prosiect symud ymlaen a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig (ICF). Bydd hyn yn cynnwys 'prif-ffrydio' y dull symud ymlaen mewn arferion gweithredol, ynghyd â chanolbwyntio'n ychwanegol ar fwyta'n iach, a fydd yn cael ei arwain gan Iechyd. Helpu oedolion ag Anableddau Dysgu ac/neu Anabledd Corfforol i ddod yn fwy annibynnol, ac felly lleihau'r angen am gymorth gwasanaethau statudol.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £414,130, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2016

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atal a Chymorth Cynnar	**Pontio** Dulliau symud ymlaen o fyw â chymorth ar gyfer unigolion sy'n agosáu at drawsnewidiad yn eu bywydau (naill ai i fod yn oedolyn neu o gartref preswyl i fyw'n annibynnol).	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £54,622, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Camu i fyny / Camu i lawr	**Camu i fyny / Camu i lawr** Sefydlu tîm amlddisgyblaethol o weithwyr medrus i ddarparu cymorth dwys i ofalwyr pobl ifanc ag anghenion cymhleth, cynnal lleoliadau, atal symud ymlaen at adnoddau preswyl annibynnol drytach. Darparu cam i lawr o leoliadau preswyl annibynnol ac ailintegreiddio yn ôl i'r gymuned leol.	Pennaf: Plant ag anghenion cymhleth, Eilaidd: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £141,102, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2018
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Camu i fyny / Camu i lawr	**Gwelyau Camu i fyny / Camu i lawr** Cefnogi adferiad defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn iddynt allu bod mor annibynnol ag y bo modd i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain. Osgoi gorfod mynd i'r ysbyty, ei gwneud yn bosib dod adref o'r ysbyty'n ddiogel, lleihau hyd yr arhosiad yn yr ysbyty a lleihau arosiadau hirdymor mewn lleoliad gofal.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â Dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £365,470, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2015

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atebion Llety	**Gwasanaethau Plant - Diwallu Anghenion Cymhleth** Cymorth i blant ag anghenion cymhleth sydd â gofynion lleoliad arbenigol drud, gan gynnwys lleoliadau y tu allan i'r sir.	Pennaf: Gofalwyr, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Pobl â Dementia	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £48,500, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atebion Llety	**Seibiant i Ofalwyr** Cynnig mwy o ddewisiadau o wasanaethau seibiannau byr i'r gofalwr ac/neu'r sawl sy'n cael gofal. Bydd y prosiect yn cysylltu sefydliadau gofalwyr â busnesau lletygarwch, twristiaeth a hamdden drwy gynyddu'r dewisiadau gwyliau byr sydd ar gael.	Pennaf: Gofalwyr, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Pobl â Dementia	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £48,500, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atal a Chymorth Cynnar	**Cymorth i Rieni sy'n Ofalwyr** Swyddog Cymorth llawn amser pwrpasol i helpu pob rhiant sy'n ofalwr, drwy • ddarparu gwybodaeth a chymorth emosiynol i rieni, gan sicrhau bod y wybodaeth a'r gwytnwch emosiynol priodol ganddynt i ymdopi yn eu rôl ofalu. • Helpu rhieni i gael gafael ar arian y mae ganddynt hawl iddo, gan gynnwys budd-daliadau a grantiau bychain. • Trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau megis sesiynau lles, digwyddiadau dydd a chiniawau cymdeithasol. • Trefnu a hwyluso grwpiau cymorth ar gyfer rhieni sy'n ofalwyr, gan roi cyfle iddynt gwrdd â'i gilydd a siarad gyda phobl eraill sy'n deall. Byddai hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth werthfawr a chynnig cymorth cymheiriaid. • Hwyluso grŵp Facebook caeedig i aelodau'n unig i gynnig cymorth cymheiriaid a gwybodaeth fuddiol y tu allan i oriau. • Cynrychioli barn rhieni mewn cyfarfodydd gyda'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau am wasanaethau lleol. • Trefnu a hwyluso fforymau a chyfleoedd ymgysylltu i sicrhau bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu, cynllunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau. • Hysbysu rhieni sy'n ofalwyr am eu hawliau. • Eiriolaeth lefel isel - mynychu adolygiadau blynyddol, apwyntiadau ysbyty ac ati yn ôl y gofyn, i gynnig cymorth a chysur. • Cardiau Max i deuluoedd. • Newyddlen chwarterol a llyfryn croeso wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer rhieni. • Gweithgareddau i'r teulu cyfan. • Defnydd o'n carafán seibiant a'n grantiau gwyliau byr.	Pennaf: Gofalwyr, Eilaidd: Plant ag anghenion cymhleth.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £37,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Mynediad at Wasanaethau	**Cronfa Ddatblygu Anableddau** Cronfa i gefnogi datblygiad syniadau a phrosiectau arloesol er lles pobl ag anableddau.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £69,657, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Asesiad a Diagnosis	**Cronfa Hyfforddiant a Datblygiad Awtistiaeth** Cronfa sy'n cefnogi addysg, hyfforddiant a datblygiad Awtistiaeth yng ngwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chymunedau Wrecsam.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £45,800, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Asesiad a Diagnosis	**Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd Anabledd** Bydd y prosiect hwn yn gweithio ar gynyddu mynediad i rieni/gofalwyr at gymorth a gwasanaethau sy'n ymwneud ag anableddau o fewn eu cymunedau lleol eu hunain, heb orfod teithio i gael cymorth arbenigol. Ein nod yw lleihau'r rhwystrau y mae unigolion ag anableddau'n eu hwynebu. Rydym eisiau sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn cael eu deall a'u cydnabod, a'u bod yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir o fewn eu cymunedau lleol.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £51,359, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Mynediad at Wasanaethau	**Grant y Trydydd Sector** Bydd y prosiect yn dyrannu cyllid i'r trydydd sector i brosiectau sy'n bodloni'r meini prawf ac yn cefnogi blaenoriaethau Anghenion Dysgu a Phlant ag Anghenion Cymhleth y Gronfa Gofal Integredig (ICF). Bydd cyllid grant yn cael ei ddarparu i gyflwyno gwasanaethau neu ddarparu cyfarpar ac adnoddau. Bydd gweithgareddau'n cael eu cyd-gynhyrchu gyda phobl ac yn annog a chefnogi datblygu grwpiau/ gweithgareddau/ ymyriadau cymorth cymheiriaid i ddatblygu cadernid cymunedol.	Pennaf: Pobl ag anableddau dysgu, Eilaidd: Plant ar Ffiniau Gofal/Plant sy'n derbyn gofal, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £240,274, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl ag Anableddau Dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; Gofalwyr; Gofalwyr ifanc	Atal a Chymorth Cynnar	**Cefnogi Gofalwyr** Mae'r peilot cyfeillio/mentora cymheiriaid yn delio ag unigrwydd a theimladau ynysig yn ogystal ag yn helpu pobl i barhau i ofalu am gymaint o amser ag y maent yn dewis gwneud hynny. Mae Covid-19 wedi cynyddu'r pwysau ar bawb, yn enwedig gofalwyr, a bu i'r galwadau cadw mewn cysylltiad/gwarchod yna i bobl ddiamddiffyn a nodwyd ar restr warchod Llywodraeth Cymru ganfod gofalwyr cudd nad oedden nhw'n hysbys cyn hynny nac mewn cyswllt ag unrhyw wasanaeth.	Pennaf: Gofalwyr, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £13,172, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Rhagfyr 2020
Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	**Rheoli Rhaglenni** Helpu cyflwyno rhaglen y Gronfa Gofal Integredig (ICF).		Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £19,534, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2015
Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	**Rheoli Rhaglenni** Helpu cyflwyno rhaglen y Gronfa Gofal Integredig (ICF).		Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £53,150, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	**Rheoli Rhaglenni** Helpu cyflwyno rhaglen y Gronfa Gofal Integredig (ICF).		Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £13,432, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Timau Cymunedol Integredig	**Timau Adnoddau Cymunedol** Tîm amlddisgyblaethol o weithwyr sy'n helpu cleifion gydag anghenion clinigol y gellir eu rheoli yn y gymuned er mwyn cynnig gofal yn nes at y cartref, yn lle gorfod mynd i'r ysbyty am gyfnodau hir. Mae egwyddorion Timau Adnoddau Cymunedol yn sicrhau bod unigolion wrth wraidd popeth a wnânt, ond mae'r system neu'r prosesau sydd wedi'u sefydlu yn rhwystro hyn yn hytrach na'i gefnogi. Nod y Timau Adnoddau Cymunedol yw symleiddio prosesau ac osgoi rhwystrau, gan arwain at well Gwasanaeth i'r unigolyn drwy roi mynediad syml ac uniongyrchol ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty ac/neu eu helpu i ddod adref o'r ysbyty. Bydd y timau yn darparu gwasanaeth di-dor drwy gydlynu iechyd a gofal cymdeithasol. Byddant yn datblygu ar gryfderau unigol a rhwydweithiau cymunedol ac yn defnyddio cymorth arbenigol yn ôl yr angen i hybu lles a galluogi unigolion i fyw eu bywydau fel y mynnant.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â Dementia, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £3,447,260, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Aros Gartref / Dychwelyd Adref	**Gwasanaeth Adar y Nos** Mae'r gwasanaeth Adar y Nos yn galluogi gweithwyr Gofal Cymdeithasol i helpu pobl yr aseswyd eu bod angen gofal yn ystod y nos rhwng 10pm a 8am, 7 noson yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ymweliadau i gartrefi pobl i gynnig gofal wedi'i drefnu neu i ymateb i sefyllfaoedd brys, e.e. codwm neu fethiant yn y rhwydwaith gofalwyr anffurfiol. Mae Adar y Nos yn ymateb i bobl sydd wedi cael codwm, ond heb gael anaf, sy'n gadael i WAST ddelio ag argyfyngau sy'n bygwth bywydau. Mae Adar y Nos yn ceisio ymateb o fewn tua 30 munud. Mae gweithdrefn lywodraethu gadarn ynghlwm â'r gwasanaeth, ynghyd â chytundeb partneriaeth. Bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth hwn ymhellach, gan ymgysylltu â'r ystafell reoli glinigol a chryfhau'r broses hyfforddi i sicrhau atgyfeiriadau cywir. Ymysg datblygiadau pellach, bydd gwasanaeth Adar y Nos, drwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr iechyd, yn cael ei gynnwys fel llwybr atgyfeirio o fodel drws ffrynt yr Adran Achosion Brys. Bydd tîm Adar y Nos yn rhan annatod o Dimau Adnoddau Cymunedol, a fydd yn gwella integreiddiad a chyfathrebu rhwng timau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnwys fel llwybr atgyfeirio o wasanaethau Gofal Lliniarol TEPS.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl â Dementia	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £89,357, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2016

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Presgripsiynu Cymdeithasol	**Llywiwr Cymunedol** Mae Llyw-wyr Cymunedol yn cysylltu dinasyddion â ffynonellau cymorth a chyfleoedd yn y gymuned. Maent wrth wraidd eu cymunedau, yn datblygu gwybodaeth a chymorth. Canolbwyntir ar gynyddu annibyniaeth a grymuso dinasyddion. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu'r prosiect ymhellach.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â Dementia, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £103,500, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Mynediad at Wasanaethau	**Lles Cymunedol** Bydd datblygiad parhaus rhaglen les yn parhau i gefnogi pobl hŷn yng Nghonwy drwy ddarparu gweithgareddau iach, cyfleoedd cymdeithasol, anogaeth feddyliol, cyfle i feithrin cyfeillgarwch a rhwydwaith cymorth, gan roi pwrpas i'w diwrnod, ac atal neu oedi'r angen am gymorth ffurfiol. Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno mewn 5 ardal leol yng Nghonwy, sef Llanrwst, Llanfairfechan, Llandudno, Bae Colwyn ac Abergele. Yn ystod y flwyddyn ariannu hon, bydd y pwyslais ar ddatblygu'n ddyfnach i'r ardaloedd hyn, gan gynnwys ardaloedd mwy gwledig. Hefyd bwriedir gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o Gyngor Sir Ddinbych er mwyn cael cyfle i gydweithio ar weithgaredd mapio i ddarparu ar gyfer ardaloedd ffiniol fel Cerrigydrudion, Llansannan a Bae Cinmel yn arbennig.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â Dementia, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £198,336, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Mynediad at Wasanaethau	**Un Pwynt Mynediad** Dyma'r Un Pwynt Mynediad syml ar gyfer asesu a chydlynu gofal er mwyn darparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol ataliol, adsefydlu a thymor hwy i oedolion. Elfen sylweddol o'r gwasanaeth yw darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae hefyd yn rhoi mynediad at asedau cymunedol er mwyn diwallu anghenion unigol, gan gynnwys osgoi teimlo'n unig ac yn ynysig.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â Dementia, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £1,046,809, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2014

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Cynllun Gweithredu Dementia	**Garreglwyd** Datblygu gwell gwasanaeth gofal Dementia yn un o Gartrefi Gofal Preswyl presennol y Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn cynnig mwy o Nyrsys Seiciatrig Cymunedol a Nyrsys Ardal i helpu unigolion sy'n byw gyda dementia sydd ag anghenion gofal cymhleth. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth hyd nes y bydd yr unigolyn angen Gofal Nyrsio EMI (Henoed Bregus eu Meddwl), pan gânt eu hatgyfeirio at y lleoliad gofal priodol.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â Dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £71,032, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2016
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Aros Gartref / Dychwelyd Adref	**Taliadau Uniongyrchol** Hwyluso datblygiad Cydweithfeydd Cynorthwywyr Personol i ddarparu sefydlogrwydd hirdymor i'r farchnad gofal cartref. Bydd hyn yn lleihau'r amser a gymerir i adael i bobl fynd adref o'r ysbyty a chael effaith gadarnhaol ar yr oedi wrth drosglwyddo gofal. Helpu mwy o bobl i gofrestru ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £88,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Llwybr / Gofal Canolraddol	**Uned Hosbis Ategol** Sefydlu uned hosbis ategol â 4 gwely o fewn Ysbyty Penrhos Stanley i ddarparu cyfuniad o ofal diwedd oes, rheoli symptomau a gofal seibiant. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb yn y gofal diwedd bywyd ar draws Gogledd Orllewin Cymru, gan nad oes unrhyw welyau hosbis ar Ynys Môn ar hyn o bryd. Darparu gwasanaeth gweithiwr cymdeithasol i helpu gyda rhyddhau a chadernid.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl â Dementia	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £132,531, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2018
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Aros Gartref / Dychwelyd Adref	**Cefnogaeth Therapydd Galwedigaethol Arbenigol** Cynyddu niferoedd o fewn gwasanaeth ThG CBSW i sicrhau y mabwysiedir dull sy'n canolbwyntio ar ailalluogi wrth weithio gyda phartneriaid ac wrth adolygu cynlluniau gofal a chymorth, er mwyn creu pecynnau gofal priodol a hybu urddas ac annibyniaeth mewn gofal.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â Dementia, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £283,780, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Timau Cymunedol Integredig	**Therapi IV** Datblygu gwasanaeth ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth fewnwythiennol (IV) yn ddiogel yn y gymuned. Bydd y ddarpariaeth gymunedol yn cynnwys ysbytai cymuned a'r gwasanaeth nyrsio cymunedol yng nghartrefi pobl. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, ond yn neilltuol, yn anghyson a heb ei gydlynu, ac nid oes iddo strwythur llywodraethu cadarn. Darperir Therapi IV yn y mwyafrif o ysbytai cymuned ac yng nghartrefi pobl, ond bod y ddarpariaeth yn fylchog a heb ei gydlynu. Rhaid mynd i'r afael hefyd â'r gwaith o lywodraethu'r parhad yng nghymhwysedd staff mewn perthynas â gweinyddu therapïau IV o fewn yr ardal, er mwyn sicrhau bod prosesau diogel wedi'u sefydlu. Mae hwn yn wasanaeth a fydd yn ymestyn dros Ynys Môn a Gwynedd. Rhagwelir y bydd yna 2 ganolfan - un yn Ysbyty Alltwen a'r llall yn Uned yr Ystafell Driniaeth yn YPS.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl â Dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £56,836, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Asesiad a Diagnosis	**Canolfan Gofal Cymunedol Heb ei Drefnu** Y weledigaeth ar gyfer y Ganolfan Gymunedol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu dros nos yw y bydd yn gwella mynediad at ofal/asesiad heb ei drefnu ar gyfer pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig (Meirionnydd a Dwyfor yng Ngwynedd), drwy ddarparu canolfan 24/7 yn Ysbyty Alltwen.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl â Dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £235,821, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Gorffennaf 2019
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Atal a Chymorth Cynnar	**Atal Codymau** Gwasanaeth atal codymau wedi ei gyflwyno ar y cyd rhwng cydweithwyr yn y maes iechyd, gofal cymdeithasol a'r Trydydd Sector, i sicrhau bod yna lai o berygl i bobl hŷn gael codwm.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â Dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £269,962, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2016
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Camu i fyny / Camu i lawr	**Camu i fyny / Camu i lawr** Lleihau nifer y bobl sy'n gorfod mynd i'r ysbyty a'u galluogi i ddod adref yn gynnar o'r ysbyty, a hynny gan alluogi pobl hŷn i ailennill eu hannibyniaeth a pharhau i fyw gartref am fwy o amser. Prynu gwelyau cam i fyny neu gam i lawr yn y fan a'r lle i ddarparu cymorth i unigolion yn lle eu bod yn gorfod mynd i'r ysbyty, i'w helpu i ddod gartref o'r ysbyty neu i osgoi'r galw am ofal hirdymor. Mae yna hefyd hyblygrwydd o fewn y gyllideb i brynu pecynnau gofal cartref yn y fan a'r lle (oriau ychwanegol) i helpu mewn sefyllfaoedd o argyfwng, fel nad oes rhaid i bobl fynd i'r ysbyty nac i ofal preswyl.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl â Dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £813,244, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2016

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Atebion Llety	**Cymorth i'r Sector Gofal** Cymorth ymarferol ac ariannol i'r sector gofal i gynnal a datblygu eu gwaith.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £500,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Timau Cymunedol Integredig	**Cymorth i'r Sector Cartrefi Gofal a Nyrsio** Creu Sector Cartrefi Gofal sefydlog, diogel a chynaliadwy yng Nghonwy - sicrhau y darperir gofal wedi'i seilio ar dystiolaeth i'n cleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal. Bydd y tîm yn rhoi cymorth, cyngor a sgiliau clinigol addysg amlddisgyblaethol i gartrefi gofal yn ardal Conwy. Nod hyn yw meithrin perthnasoedd gwaith rhwng darparwyr gofal a chydweithwyr iechyd, a gwneud y gorau o fuddion y Timau Adnoddau Cymunedol i'r rhai mewn cartrefi gofal nyrsio a phreswyl.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £210,680, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Iechyd a Lles Emosiynol	**Pontio'r Cenedlaethau** Mae'r cynllun 'Pontio'r Cenedlaethau' yn cynnal cyfres o sesiynau wythnosol rhwng disgyblion Blwyddyn 1 a phobl hŷn sydd mewn lleoliad gofal, a hynny ar hyd a lled Gwynedd. Bydd y prosiect yn creu ac yn rhannu llawlyfr o weithgareddau addas i'w cynnal yn ystod y sesiynau, drwy ddefnyddio gwahanol ffurfiau celf (e.e. cerddoriaeth, ffotograffiaeth) a gweithgareddau (e.e. coginio, chwarae gemau) ac unrhyw beth a fydd yn helpu meithrin perthynas gadarnhaol a chefnogol rhwng y plant a'r bobl hŷn. Bydd y prosiect yn cysylltu ag Ysgolion Uwchradd a Cholegau 6ed dosbarth i edrych ar sut y gallant gyfrannu a dylanwadu ar ddisgyblion hŷn i fynd ati i weithio gyda phobl hŷn yng nghyd-destun cymhwyster BAC Cymru. Bydd hefyd yn annog pobl ifanc i fynd am brofiad gwaith yn y sector gofal fel ffordd o ystyried gyrfa yn y maes gofal. Gweithio gyda sectorau Addysg, Gofal ac addysg bellach i geisio recriwtio mwy o bobl ifanc i weithio a hyfforddi yn y sector gofal. Y gobaith yw y byddai lleoliadau gofal ac ysgolion/colegau ledled Gwynedd yn parhau gyda'r gwaith yn y dyfodol, yn dilyn sefydlu cronfa o ddeunyddiau ymarferol a chanllaw arferion da.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu, Eraill: Pobl â dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £42,250, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Mai 2018

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Presgripsiynu Cymdeithasol	**Asiantiaid Cymunedol** Mae Asiantiaid Cymunedol yn cysylltu dinasyddion â ffynonellau cymorth a chyfleoedd yn y gymuned. Maent wrth wraidd eu cymunedau, yn datblygu gwybodaeth a chymorth. Canolbwyntir ar gynyddu annibyniaeth a grymuso dinasyddion.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â Dementia, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £207,123, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2015
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Iechyd a Lles Emosiynol	**Cydweithfeydd** Darparu mwy o ddewisiadau yn y gymuned i helpu unigolion â'u hanghenion gofal a chymorth. Mynd i'r afael ag unigrwydd a theimladau ynysig ymysg pobl hŷn. Y canlyniad hirdymor yw y bydd amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer gofal a chymorth ar gael yn y gymuned. Bydd datblygu cydweithfeydd gweithwyr a defnyddwyr yn galluogi unigolion i gael gwasanaeth sy'n canolbwyntio arnynt hwy, cael dewis gwirioneddol a chael defnyddio eu budd-daliadau ariannol, naill ai drwy daliadau uniongyrchol neu asedau personol, i'w llawn botensial. Bydd defnyddwyr yn gallu cyfuno eu harian i gael cyfleoedd/gweithgareddau tebyg, a thrwy hynny leihau'r costau, a drwy gysylltiadau agos â chydweithfeydd y gweithwyr, bydd defnyddwyr yn gallu cael gafael ar gynorthwywyr personol.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £40,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Atal a Chymorth Cynnar	**Atal Diabetes** Bydd y prosiect yn cynnig cymorth i unigolion sydd â'r cyflwr cyn-ddiabetes. Rhoddir pwyslais ar weithio ag unigolion yn eu cartrefi a'r gymuned ehangach i helpu mabwysiadu ffordd iachach o fyw er mwyn atal y cyflwr rhag datblygu i fod yn ddiabetes math 2. Bydd gweithwyr cymorth cymunedol yn cysylltu â dietegwyr a darpariaethau presennol, gan gynnwys NERS, 'Cael Gogledd Cymru i Symud', Llyw-wyr Cymunedol, CAB, Diabetes UK, Cyngor y Gwasanaethau Gwirfoddol, y Tîm Rheoli Pwysau ac ati, i ddatblygu rhwydweithiau cymorth a chynllun personol / 'presgripsiwn cymdeithasol' i unigolion. Mae cael cymorth gan yr adran gwyddorau ymddygiadol ym Mhrifysgol Bangor yn cael ei drafod, i sicrhau ein bod yn rhoi rhaglen newid ymddygiad effeithiol, wedi'i seilio ar dystiolaeth, ar waith. Bydd y prosiect yn gweithio gyda chymunedau dynodedig mewn ardaloedd o amddifadedd i ddechrau, er mwyn sicrhau cynnydd i leihau anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £80,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Timau Cymunedol Integredig	**Gwasanaeth Cymorth Cymunedol Integredig ar gyfer Pobl â Nam ar y Synhwyrau** Recriwtio Swyddogion Cymorth arbenigol i Bobl Fyddar a phobl â Nam ar eu Golwg, a fydd yn cysylltu'n agos â'n Timau Adnoddau Cymunedol i wella ein cynnig ailalluogi ar gyfer pobl hŷn sydd â nam ar y synhwyrau.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £35,745, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Presgripsiynu Cymdeithasol	**Cydlynydd Asedau Lleol** Mae'r model Presgripsiynu Cymdeithasol ar Ynys Môn yn ymgorffori gwasanaeth Cyswllt Cymunedol Môn a'r model Cydlynu Asedau Lleol. Mae Cyswllt Cymunedol, sy'n cael ei redeg o fewn Medrwn Môn, yn Un Pwynt Mynediad Trydydd Sector sy'n cynnig mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth wedi'i addasu i anghenion lefel isel unigolion mewn perthynas â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles, a hynny yn eu cymunedau eu hunain. Bydd Cyswllt Cymunedol Môn yn helpu cynnal a hybu annibyniaeth a lles unigolion, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys o'r wybodaeth a gynigir, neu drwy eu hatgyfeirio at Gydlynydd Asedau Lleol. Bydd staff y GIG, staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a staff a gwirfoddolwyr eraill y trydydd sector yn defnyddio Cyswllt Cymunedol Môn fel pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeirio at wasanaethau'r trydydd sector, gwybodaeth, cyngor arbenigol, cymorth a chydlynu gofal. Defnyddir y model hefyd fel llwybr atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £35,745, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Atal a Chymorth Cynnar	**Pryd ar Glud - Seren** Mae'r prosiect yn ymwneud â sefydlu gwasanaeth 'Pryd ar Glud' i sicrhau bod ei gwsmeriaid yn gallu cael bwyd maethlon bob dydd, a hwnnw wedi'i ddanfon i'w drws. I nifer o'r darpar ddefnyddwyr, dyma fydd eu hunig gyswllt dyddiol â'r gymuned, a bydd y gwasanaeth yn cael ei strwythuro, drwy gydweithio â sefydliadau partner perthnasol eraill, mewn ffordd sy'n ei alluogi i fod yn sianel i wasanaethau eraill a fyddai o fudd iddynt.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £35,734, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Presgripsiynu Cymdeithasol	**Cyswllt a Chefnogaeth Hybiau Cymunedol** Bydd Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Hybiau Cymunedol llawn amser yn helpu gyda'r rhwydwaith cynhwysfawr o Hybiau Cymunedol a sefydlwyd ar Ynys Môn. Mae'r hybiau cymdeithasol a lles niferus hyn (sy'n amrywio o ran dyddiad eu sefydlu, eu cyfansoddiad a'u rheolaeth a lefel ac amrywiaeth presennol eu gweithgareddau) wedi eu nodi o fewn Strategaeth Heneiddio'n Dda Pobl Hŷn Ynys Môn fel elfen allweddol ar gyfer hwyluso mentrau a rhaglenni cymdeithasol, iechyd a lles lleol. Cafodd y cynnig hwn ardystiad unfrydol gan aelodau Cynghrair Hybiau Cymunedol Ynys Môn yn ei gyfarfod ar 20 Awst 2019. Bu i Gynghrair yr Hybiau gydnabod yr angen gwirioneddol am adnodd arbenigol o'r fath gan y trydydd sector, i ddatblygu a gwella ymhellach Fodel Hybiau Ynys Môn, gan bwysleisio hefyd y gwirionedd bod mwyafrif yr Hybiau yn cael eu llywodraethu a'u rheoli gan wirfoddolwyr.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl â dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £32,600, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Atal a Chymorth Cynnar	**Meddwl am y Dyfodol, Cynllunio at y Dyfodol** Bydd y prosiect hwn yn gwahodd pawb sy'n agosáu at fod yn 73 oed (neu unigolion y nodir y byddant angen ymyrraeth yn iau oherwydd pryderon iechyd gan Feddygon Teulu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol*), i feddwl am y dyfodol drwy gael y sgyrsiau priodol a gosod nodau personol i sicrhau dull rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynllunio ar gyfer eu blynyddoedd hŷn. Drwy feddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gall unigolion wneud dewisiadau cytbwys am eu dyfodol a gwella ansawdd eu bywyd eu hunain wrth iddynt heneiddio, gyda'r nod o barhau i fod yn annibynnol am fwy o amser. Bydd y prosiect yn mynd i'r afael â bygythiad deuol poblogaeth sy'n heneiddio a chyllideb gofal cymdeithasol gyfyngedig, a gydag ymyriadau amserol, bydd yn lleihau nifer y bobl sy'n dod yn ddibynnol ar ofal y wladwriaeth. Byddai cynllunio ymlaen llaw yn ddull newydd o ddarparu cymorth o'r math hwn gan fod y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn sgil cyfyngiadau o ran cyllideb ac amser, yn ymateb i ddigwyddiadau yn ôl-weithredol ar hyn o bryd. Mae gofalwyr a phobl hŷn wedi nodi, pan maent yn cael gafael ar y mathau hyn o wasanaethau, ei bod yn aml yn rhy hwyr i newidiadau gael yr effaith fuddiol orau. Drwy edrych ar anghenion posib y dyfodol ac ystyried beth y gallai byw'n annibynnol ei olygu iddynt hwy, mae ganddynt reolaeth a dewis dros eu dyfodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys: cyflwyno technoleg, gwneud addasiadau cartref yn gynt ac efallai ystyried trefniadau tai amgen, a sicrhau y gweithredir ar ystyriaethau ariannol a chyfreithiol, e.e. gwiriadau budd-daliadau, atwrneiaeth ac ewyllysion.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £14,225, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Llwybr / Gofal Canolraddol	**Rheoli Dysffagia** Bydd y gwasanaeth Rheoli Dysffagia mewn Cartrefi Nyrsio yn • Darparu Hyfforddiant Sgrinio Anawsterau Llyncu i staff nyrsio cofrestredig mewn cartrefi nyrsio, gan ddefnyddio'r pecyn Llwybr Ymyrraeth Gofal Llyncu (SCIP) a ddatblygwyd yn Wrecsam gan Rachel Kudrycz, Therapydd Iaith a Lleferydd. Ymgynghorwyd yn eang ar SCIP gydag amrywiol fudd-ddeiliaid, gan gynnwys nyrsys datblygu ymarfer ac Arolygiaeth Gofal Cymru, sydd oll yn cefnogi gweithrediad SCIP. • Llwybr gofal llyncu yw SCIP sydd wedi'i ddylunio i ddarparu cynllun rheoli i drigolion cartrefi nyrsio y nodwyd eu bod yn cael trafferth bwyta, yfed neu lyncu. Mae'n sbarduno atgyfeiriad am Therapi Iaith a Lleferydd ar gyfer rhai trigolion, ac yn cynnwys ffurflen atgyfeirio am Therapi Iaith a Lleferydd yn ôl yr angen, heb fod angen gwneud cais am atgyfeiriad gan Feddyg Teulu. • Gall Nyrsys Cofrestredig sy'n gweithio mewn cartrefi nyrsio ddefnyddio'r SCIP. Dim ond nyrsys sydd wedi cael hyfforddiant SCIP all ddefnyddio'r llwybr atgyfeirio a gwneud atgyfeiriadau at Therapydd Iaith a Lleferydd. Bwriedir i'r SCIP gael ei ddefnyddio fel llwybr llyncu ar gyfer unrhyw un o drigolion cartref nyrsio y gwelwyd eu bod yn cael trafferthion bwyta, yfed neu lyncu. • Mae'r SCIP yn cynnwys sesiwn hyfforddi 2.5 awr dan arweiniad therapydd iaith a lleferydd cymwys. Er mai dim ond nyrsys cofrestredig fydd yn gallu defnyddio'r SCIP, byddai cynorthwywyr o fewn y cartrefi nyrsio hefyd yn elwa o gael yr hyfforddiant, gan ei fod yn trafod agweddau ar reoli dysffagia a fydd yn gwella eu hymwybyddiaeth a'u rheolaeth o ddydd i ddydd. • Annog Cartrefi Nyrsio i gymryd cyfrifoldeb a mabwysiadu polisi Dysffagia sydd wedi'i addasu orau ar gyfer eu harferion gwaith. • Cynnig dull cynaliadwy a realistig o fynd i'r afael â llyncu a rheoli maeth mewn Cartrefi Nyrsio.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £13,251, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Aros Gartref / Dychwelyd Adref	**Tuag Adref** Helpu cleifion i gael dod adref yn gynnar o ysbytai cyffredinol dosbarth ac ysbytai cymuned, ac atal pobl rhag gorfod mynd i leoliad ysbyty heb fod angen. Gwneir hyn drwy ddefnyddio Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal (HCSW) sy'n ymgymryd â rôl ddeuol ac yn cefnogi cleifion sydd wedi cael dod adref o'r ysbyty, ond sydd angen cymorth pellach yn syth ar ôl dod adref, er mwyn osgoi'r cylch o fynd yn ôl ac ymlaen i'r ysbyty. Mae hyn yn unol ag ethos D2RA i ddarparu'r gofal cywir ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir o fewn cartref y claf. Lleihad mewn oedi wrth drosglwyddo gofal oherwydd nad yw'r gwasanaethau cymorth ar gael yn y gymuned. Parhau i adsefydlu o fewn y gymuned yn unol ag ysbytai cymuned a Thimau Adnoddau Cymunedol cydnaws, gan hwyluso ethos "Cartref yn Gyntaf".	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £627,579, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Atal a Chymorth Cynnar	**Hyfforddiant Cartrefi Gofal Tîm Codymau Gwynedd** Cydlynydd Codymau Band 6 - Cyflwyno pecyn hyfforddiant mewnol i Gartrefi Gofal yng Ngwynedd a sicrhau bod gan bob aelod staff ddealltwriaeth sylfaenol o atal codymau. Hefyd, hwyluso newidiadau ymddygiadol i wella rheolaeth o godymau mewn Cartrefi Gofal, sy'n gydnaws â chanllawiau NICE. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant yn y defnydd o'r adnodd brysbennu Baner Goch er mwyn gallu delio'n fwy effeithiol â thrigolion sydd wedi cael codwm ond heb gael anaf, felly'n lleihau'r angen am alw am ambiwlans. Mae hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio asesiad aml-risg ar bob cleient a nodi ymyriadau posib. Ymarferydd Codymau B4 i gysylltu â Dementia Go er mwyn darparu rhaglen hyfforddiant ymarfer corff wrth eistedd ar gyfer gofalwyr a staff Cartrefi Gofal. Uwchsgilio staff Cartrefi Gofal a Gofalwyr i barhau i gyflwyno rhaglen ddyddiol o ymarfer corff syml wrth eistedd sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £48,885, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Mynediad at Wasanaethau	**Swyddog Cymorth a Gwybodaeth Ysbyty Age Cymru** Bydd swydd Swyddog Cymorth a Gwybodaeth Ysbyty Age Cymru yn cael ei sefydlu i gyflenwi a gwella'r ddarpariaeth bresennol yn Ysbyty Gwynedd. Bydd yn wasanaeth a ddarperir gan staff hynod fedrus a gwybodus (naill ai 1 Swyddog llawn amser neu 2 Swyddog rhan amser), a fydd yn cynnig asesiad anghlinigol o anghenion ac yn cyflenwi unrhyw ddarpariaeth iechyd neu gymunedol, gan sicrhau ymagwedd gyfannol tuag at bob angen corfforol ac emosiynol a helpu pobl i addasu i unrhyw newidiadau ar ôl bod yn yr ysbyty. Bydd Gweithiwr Cymdeithasol neu weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol arall yn cael eu cynnwys i gynnig cymorth yn ôl yr angen. Pan fo gan yr unigolyn becyn gofal/cymorth yn y gymuned yn barod, bydd y Swyddog Cymorth a Gwybodaeth Ysbyty yn cysylltu â'r darparwr priodol yn ôl yr angen. Mewn sefyllfa lle mae claf yn yr ysbyty yn cael cymorth gan Weithiwr Cymdeithasol yr Ysbyty ac mae eu partner/priod yn cael cymorth gartref gan Weithiwr Cymdeithasol Cymunedol, bydd y Swyddog Cymorth a Gwybodaeth Ysbyty yn sicrhau bod y ddau dîm Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod ynghyd i gydweithio ar achosion o'r fath. Bydd eu rôl hwy hefyd yn ffordd o gynnig 'drws ffrynt' neu 'siop un stop' i gleifion, gofalwyr ac/neu deulu gael gafael ar gyngor a chymorth perthnasol (gan gynnwys mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar ac agweddau ataliol). Bydd y Gwasanaeth yn gallu cyfeirio pobl naill ai at y wybodaeth/ffeithlen berthnasol ar gyfer y mater dan sylw, ac/neu at y sefydliad perthnasol ar faterion a allai gynnwys: i. Gofalu am berthnasau a ffrindiau, ii. Cyngor ariannol, iii. Gorbryder, straen ac iselder, iv. Iechyd, ffordd o fyw a lles, v. Rhoi'r gorau i ysmygu, vi. Cyffuriau ac alcohol, vii. Gweithgarwch corfforol, viii. Rheoli pwysau, ix. Maethu anifail anwes, x. Grwpiau a gwasanaethau cymorth, xi. Cynnal a chadw/trwsio y cartref a'r ardd, xii. Cwynion a phryderon am y GIG.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £30,500, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Atebion Llety	**Penrhos** Rheolwr Prosiect i gefnogi'r gwaith am 2 ddiwrnod yr wythnos er mwyn helpu gyda'r prosiect a sicrhau bod y gwaith partneriaeth ac ymgynghori wedi'i gwblhau a bod y budd-ddeiliaid yn ymwybodol o'r prosiect ac yn rhan ohono. Gallai'r adnodd ddylanwadu ar, a siapio'r gwasanaeth newydd, gan hyrwyddo a gwella iechyd a gofal cymdeithasol mewn maes lle mae diffyg yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd a lle mae yna bryderon am ein gallu i ddarparu a diogelu'r gwasanaethau hyn at y dyfodol. Gall yr adnodd hwn werthuso'r potensial i integreiddio gwasanaethau a hyrwyddo mwy o gydweithio drwy ddod â gwasanaethau ac adnoddau ynghyd. Y nod yw defnyddio'r dyraniad i allu cydlynu'r prosiect yn ogystal â gallu nodi datblygiadau a synergeddau posib eraill yn y dyfodol. Bydd rheolwr y prosiect yn rhan annatod o ddod â'r partneriaid i gyd ynghyd, sef Clwyd Alyn, Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae hwn yn adnodd cefnogi prosiect ar gyfer prosiect cyfalaf.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £58,548, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Cymorth i Deuluoedd	**Rhannu Bywydau** Nod y prosiect hwn yw mynd i'r afael â'r diffyg dewisiadau gofal seibiant a gofal dydd sydd ar gael yng Ngwynedd a Môn. Mae'r galw am seibiant yn y rhanbarth wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, a hynny oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys y cynnydd mewn pwysau ar ofalwyr. Mae hyn wedi'i ddwysau gan bandemig Covid-19 a'r pwysau a'r pryder digynsail y mae wedi'i achosi i oedolion ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £43,250, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Aros Gartref / Dychwelyd Adref	**Peilot Rheoli Meddyginiaethau, Tywyn, Gwynedd** Datblygu rhaglen hyfforddi'r hyfforddwr fel safle braenaru yng Ngogledd Cymru – Gwynedd. Y nod yw hyfforddi gofalwyr i weinyddu meddyginiaethau ac yn y pen draw, datblygu rheolwyr atebol i asesu cymhwysedd gweinyddu meddyginiaethau eu staff. Bydd angen i'r gweithiwr gofal cartref ddangos cymhwysedd cyn y gall weinyddu meddyginiaethau, a chael ei asesu bob blwyddyn neu'n amlach os bydd unrhyw bryderon yn codi. Bydd y rhaglen drosfwaol yn rhedeg ochr yn ochr â hyfforddiant BIPBC ar gyfer Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal o fewn y rhaglen NVQ. Mae hon yn fenter ar y cyd rhwng BIPBC a chwech arweinydd Gwasanaeth Cymdeithasol Oedolion Gogledd Cymru, sydd wedi cytuno i weithio gyda AGIC i archwilio rhaglen hyfforddi'r hyfforddwr gan edrych ar ymarferoldeb hyn a'r adnoddau y byddai eu hangen.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £37,544, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Technoleg Gynorthwyol	**Swyddog Cymorth Digidol (Medrwn Môn)** Mae'r prosiect yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn mewn mynediad at wasanaethau ar-lein, a chyflwyno ac ailgysylltu pobl â'r gwasanaethau hynny drwy gyflogi Swyddog Cynhwysiant Digidol. Bydd y Swyddog hwn yn pontio'r berthynas rhwng ein Prosiect Hybiau Digidol, Gwasanaethau Iechyd ar-lein a Meddygon Teulu lleol a'n Prosiect Presgripsiynu Cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod pecyn cyfan o gymorth ar gael a fydd yn helpu cysylltu pobl â'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir, ac yn cynnig ymyrraeth gynnar gyda'r gobaith o leihau angen unigolion am Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y tymor hwy.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £39,750, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Presgripsiynu Cymdeithasol	**Swyddog Datblygu Pontio'r Cenedlaethau Cynghrair Seiriol** Nod y Swyddog fydd gweithio gyda chymuned gyfan Seiriol i gysylltu gweithgareddau yn gyffredinol a chreu cyfleoedd i bontio'r cenedlaethau. Bydd yn gwneud hyn drwy gysylltu â gweithgareddau presennol, hybiau cymunedol a'r mentrau cymdeithasol i hyrwyddo parch at bob cenhedlaeth.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £20,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Atal a Chymorth Cynnar	**Bwyd Da Môn** Nod y prosiect hwn yw gweithio gydag archfarchnadoedd ar Ynys Môn i leihau gwastraff bwyd a dibyniaeth ar fanciau bwyd. Bydd y prosiect yn gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i gael gafael ar ddewisiadau bwyd wythnosol sy'n cynnig mwy o werth am arian. Er enghraifft: Fel aelod o BDM, gall teulu dalu £5 i mewn i'r cynllun a chael gwerth £20 o fwyd.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl ag anableddau dysgu, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £15,755, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Atal a Chymorth Cynnar	**Cynllun Cyfaill Ogwen** Yn dilyn y pandemig, bu i ni ganfod bwlch yn narpariaeth prydau iach a maethlon i bobl hŷn sy'n gorfod hunanynysu yn Nyffryn Ogwen. Ynghyd â darparu bwyd, mae unigrwydd wedi bod yn her i'r henoed yn sgil y pandemig. Yn ystod 2020, bu i ni reoli cynllun o'r enw Cynllun Cyfaill Ogwen, sy'n danfon prydau bwyd a gynhyrchir gan Gaffi Coed-y-Brenin (menter gymdeithasol leol arall) i gartrefi lleol. Wrth ddanfon, mae'r Cyfaill yn sgwrsio â'r unigolyn ac yn rhoi cyfle iddynt gymdeithasu, ac mae hefyd yn gyfle i ddod o hyd i unrhyw heriau y mae'r unigolyn yn eu hwynebu. Er enghraifft, rydym eisoes wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac eraill i ganfod a gwella sefyllfa un cwpl hŷn sy'n dioddef o dlodi ac unigrwydd yn sgil y pandemig. Mae'r cynllun yn gyfle i ddefnyddio'r gwasanaeth danfon bwyd i gynnig gofal integredig ochr yn ochr â'n partneriaid. Mae llwyddiant y prosiect peilot hyd yma yn dangos yr angen ymysg trigolion diamddiffyn yr ardal am brydau bwyd ac am gyfleoedd i gymdeithasu. Bydd y prosiect newydd hefyd yn mynd i'r afael â'r problemau hyn. Hoffem hefyd gynllunio y tu hwnt i'r pandemig, pan fyddwn yn gallu mynd ag unigolion i gymryd rhan mewn cyfleoedd lles a chymdeithasol yn eu cymunedau.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Pobl ag anableddau dysgu.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £17,910, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Llwybr / Gofal Canolraddol	**Model Gofal Cartref Newydd** Nid yw'r gwaith presennol o gomisiynu a darparu gofal cartref yn cyflawni gofynion y ddeddfwriaeth gyfredol, ac nid yw'n cynnig gwerth am arian. Rydym yn wynebu prinder gweithwyr gofal cartref, trafferthion recriwtio a chadw staff ac mae'r gofal cartref rydym yn ei ddarparu yn anhyblyg ac yn cael ei yrru gan drefniadau rheoli yn hytrach na'r hyn sydd orau i bobl. Drwy gael trefniadau comisiynu ar wahân gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, mae gan ddarparwyr bŵer cryf i werthu, ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer pobl yn dibynnu ar y sefydliad comisiynu. Wrth i gyfrifoldebau ariannu newid, mae pobl yn wynebu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd. Nid oes gennym farchnad gofal cartref gynaliadwy ac mae angen mynd i'r afael â hynny. Y canlyniad mwyaf a ddisgwyliwn ei gyflawni yw gwasanaeth mwy hyblyg, ymatebol a chynhwysol sy'n gadael i bobl fyw eu bywydau fel y mynnant. Rydym am i ofal gyd-fynd â bywydau pobl, yn hytrach na bod bywydau pobl yn gorfod cyd-fynd â'u gofal. Drwy ddal ati i wneud yr hyn sydd ei angen - dim mwy, dim llai - a manteisio i'r eithaf ar y ffyrdd y gall cymunedau helpu pobl, gwyddom y gallwn leihau'r ddibyniaeth ar ofal. Bydd hyn, ynghyd â phrosesau llai biwrocrataidd ar gyfer y system gyfan (megis cyfuno cynlluniau gofal), yn rhyddhau lleoedd ac yn sicrhau y bydd y cyflenwad yn bodloni'r galw. Y gobaith yw y byddwn yn cyrraedd sefyllfa lle mae gofal cartref ar gael yn rhwydd i'r unigolion hynny sydd ei angen, ond nad yw'n cael ei ddarparu i'r unigolion hynny nad ydynt ei angen.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £148,927, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Presgripsiynu Cymdeithasol	**Cludiant Cymunedol - Dyffryn Nantlle** Cryfhau canolfan gludiant gymunedol a fyddai wedyn mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â phroblemau cludiant pobl anabl a phobl hŷn (yn ogystal â phobl sy'n cael trafferthion yn sgil tlodi a diweithdra) a lleihau unigrwydd. Yn ei dro, bydd hyn yn mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl a gysylltir yn aml â theimlo'n unig ac yn ynysig. Yn ystod y pandemig, bu'r prosiect yn trefnu gweithgareddau grŵp bychain oedd yn ddiogel o ran rheolau Covid, yn ogystal ag ehangu'r cludiant a gynigir. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys: • sesiynau celf, crefft a lles corfforol a meddyliol mewn caffi lleol a oedd yn ddiogel o ran rheolau Covid (6 o bobl ar y mwyaf) • ymweliadau ag amgueddfeydd, orielau, canolfannau garddio a chaffis lleol (wrth i'r brechiadau ganiatáu dychwelyd yn raddol at weithgareddau 'arferol') • rhwydweithio gyda grwpiau a chapeli lleol ac ati, a chyfeirio unigolion i gymryd rhan ynddynt (fel rhan o fenter presgripsiynu cymdeithasol arfaethedig sydd wrthi'n cael ei datblygu) Byddwn yn parhau i asesu anghenion unigolion yn ystod ac yn syth ar ôl codi cyfyngiadau Covid, a bydd y prosiect yn helpu unigolion i fynd i apwyntiadau brechu a chasglu presgripsiynau, gwneud neges ac ati.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Pobl â dementia, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £17,080, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Pobl Hŷn ag anghenion cymhleth	Mynediad at Wasanaethau	**Grant y Trydydd Sector** Cynllun grantiau bychan a reolir gan y Cyngor Gwirfoddol Lleol ac a fydd yn cyfrannu at gyflawni dyletswydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i hybu datblygiad modelau darparu amgen. Bydd CGGC yn helpu sefydliadau gwerth cymdeithasol sy'n cynnig gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol i wneud cais am grant bychan, cynnal y broses diwydrwydd dyladwy, cyhoeddi grantiau (os bodlonir y meini prawf), monitro a chasglu mesurau deilliant ac adrodd i Fforwm Conwy am bob agwedd ar y cyllid a'r deilliannau.	Pennaf: Pobl Hŷn, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl â dementia.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £65,893, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	**Rheoli Rhaglenni** Helpu cyflwyno rhaglen y Gronfa Gofal Integredig (ICF).		Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £116,355, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2017

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	Gallu /Seilwaith Rhanbarthol	**Rheoli Rhaglenni** Helpu cyflwyno rhaglen y Gronfa Gofal Integredig (ICF).		Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £84,487, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Swyddog Comisiynu Dementia** Gweithio gydag asiantaethau, budd-ddeiliaid a defnyddwyr a gofalwyr i ddatblygu dull strategol clir o ddarparu gofal a chymorth i bobl sy'n byw gyda dementia.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £41,639, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2018
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Gweithwyr Cymorth Dementia** Bydd Gweithwyr Cymorth Dementia, wedi'u lleoli mewn Timau Adnoddau Cymunedol, yn gweithio gydag unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i greu tîm o amgylch yr unigolyn.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £176,900, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Hydref 2018
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Gweithwyr Cymorth Dementia** Nod y prosiect yw darparu gwasanaethau cymorth cymunedol i bobl hŷn ac oedolion iau sy'n dioddef o broblemau cymedrol i ddifrifol sy'n gysylltiedig â'r cof, neu sydd wedi cael diagnosis o ddementia. Bydd y gweithwyr cymorth dementia yn mabwysiadu dull gwell sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ganfod unigolion a theuluoedd o fewn ardaloedd daearyddol dynodedig, er mwyn cynnig cyngor a chymorth amserol i ddefnyddio a chael gafael ar wasanaethau priodol. Bydd y gweithwyr cymorth dementia yn cydweithio'n agos â'r Cydlynydd Asedau Lleol i ganfod atebion yn y gymuned i wella deilliannau lles yr unigolyn sy'n byw gyda dementia a'u gofalwr. Byddant yn cefnogi datblygiad gweithgareddau cymunedol o fewn canolbwyntiau lleol ac yn helpu Cynghreiriau Dementia lleol i roi blaenoriaethau lleol ar waith.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £160,969, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl â Dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Gweithwyr Cymorth Dementia** 5 GCD i helpu a gwella gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol wedi'u lleoli ym mhob tîm ardal leol.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £133,765, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl â Dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Cydlynydd Rhyddhau Henoed Bregus eu Meddwl (EMI)** Rôl y Cydlynwyr Rhyddhau Henoed Bregus eu Meddwl a Chartrefi Gofal yw helpu unigolion i gael dod adref o Ysbyty Gwynedd, Ysbytai Cymunedol ac Ysbyty Cefni, a goruchwylio'r Cydlynydd Rhyddhau (Band 6). Y nod gyffredinol yw lleihau nifer y bobl sy'n cael eu hanfon gartref yn amhriodol o'r ysbyty neu eu rhoi mewn lleoliadau amhriodol, a hynny drwy ddefnyddio gwybodaeth arbenigol ac arweinyddiaeth nyrsys. Byddant yn canfod y ffordd fwyaf priodol o fodloni anghenion yr unigolyn yn y lleoliad mwyaf priodol. Bydd y Cydlynydd Rhyddhau a Chartrefi Gofal yn gweithio ar y cyd â theuluoedd a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau cynlluniau rhyddhau cywir, gyda'r nod o leihau'r angen am weithgarwch 1:1.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £87,120, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Hydref 2018
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Tîm Cymorth yn y Cartref** Mae'r model diwygiedig hwn yn cyfuno dau Brosiect Dementia: DEM_2 Gweithwyr Cymorth Gofal Ychwanegol a DEM_9 Tîm Cymorth yn y Cartref, i ddarparu gofal a chymorth hyblyg ac ymatebol i bobl sy'n byw gyda dementia yn eu cartrefi neu'n agos at adref. Mae hyn yn cynnwys cymorth amlddisgyblaethol a seibiant yn ystod y nos i bobl sy'n byw mewn Gofal Ychwanegol, gofal preswyl ac mewn cartrefi preifat.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £267,919, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Tîm Cymorth Dementia Llys Elian** Datblygu Llys Elian, Bae Colwyn, yn 'ganolfan ragoriaeth' dementia, drwy ddarparu Tîm Cymorth Dementia newydd (8WTE) i gynnig allgymorth hyblyg ar ffurf "tîm o amgylch yr unigolyn", a hynny drwy gydol eu taith gyda dementia. Gwnaed cais am gyllid cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i ddatblygu'r safle ac ehangu gallu ac ystod y ddarpariaeth o fewn Llys Elian.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £239,670, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Gwely Lleoliad Tymor Byr** Gwely tymor byr o fewn cartref gofal sydd wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i bobl sy'n byw gyda dementia, er mwyn helpu rheoli argyfyngau o fewn y cartref/y gymuned ac atal unigolion rhag gorfod mynd i'r ysbyty ac/neu i ofal hirdymor yn ddiangen.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £63,598, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2018
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Asesiad Clyw ar y Llwybr Diagnosis o Ddementia** Canfod nam ar y clyw yn y bobl hynny yr amheuir eu bod yn dioddef o ddementia, a'u hatgyfeirio i gael cymorth clyw cyn eu hatgyfeirio at y gwasanaeth cof. Bydd hyn yn lleihau diagnosis amhriodol o ddementia, oedi datblygiad dementia, gwella lles a lleihau'r angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £18,800, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Mehefin 2019
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Gwasanaeth Therapi Cymunedol** Hyrwyddo a darparu amrediad o weithgareddau cymunedol, gyda chymorth proffesiynol wedi'i ddylunio i helpu pobl sy'n byw gyda dementia a'r bobl hynny gydag arwyddion o nam gwybyddol heb ddiagnosis.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £47,299, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2018
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Gwaith Datblygu Cymunedol Dementia** Datblygu mentrau cymunedol i helpu pobl â dementia i fod mor annibynnol ag y gallant o fewn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £57,731, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2018

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Gwasanaeth Cymorth Dementia (Haen 2)** Darparu gwasanaeth cymorth dementia yn y gymuned i wella cydweithrediad rhwng y gymuned a'r gwasanaethau statudol, a sicrhau bod anghenion lles yr unigolion sy'n byw gyda dementia yn cael ystyriaeth flaenllaw yn y ddarpariaeth.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £73,360, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2018
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Hyfforddiant ac Adnoddau Dementia Sir Ddinbych** Y deilliant hirdymor yw y bydd dinasyddion sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn cael cymorth gan dîm gwybodus sydd â sgiliau arbenigol a mynediad at adnoddau arbenigol mewn perthynas â dementia i hybu lles. Y canlyniad yw y bydd dinasyddion sy'n byw â dementia'n parhau i fod yn annibynnol ac yn aros yn eu cartrefi. Ni all cyfleoedd hyfforddi ond gwella dealltwriaeth ac, yn y pen draw, ansawdd y gofal a'r cymorth rydym yn ei ddarparu i bobl â dementia.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £17,834, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Gorffennaf 2019
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Cynnydd i Ddarparwyr** Ehangu cynnydd gwaith darparwyr i mewn i'r sector gofal cartref.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £42,840, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Hydref 2018
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Cymorth i Gartrefi Gofal** Helpu unigolion sy'n byw gyda dementia, neu unigolion ag anghenion cymhleth o fewn cartrefi preswyl a chanolfannau dydd; helpu aelodau teulu, perthnasau agosaf a staff i'w cefnogi; helpu deall cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a pharatoi cynlluniau ymddygiad cadarnhaol a chyngor a fydd yn arwain at fodloni anghenion a nodwyd.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £37,586, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych sy'n Deall Dementia** Ein nod yw creu cymunedau cryf drwy weithredu gwirfoddol a mentrau cymdeithasol, a gwella lles unigolion a'r gymuned. Bydd y rhaglen weithgareddau hon yn ein galluogi i ddarparu cymorth ac ymwybyddiaeth cynaliadwy yn y gymuned ledled y Sir. Ar ôl iddo gael ei brofi, gellid cyflwyno'r model hwn ar draws yr holl ranbarth. Gallai datblygu a defnyddio methodoleg gwerthuso Effaith a Gwerth Cymdeithasol gynhyrchu manteision ehangach, a chael ei ddefnyddio fel fframwaith gwerthuso ar gyfer prosiectau tebyg ledled y rhanbarth. Bydd y cyllid hwn yn galluogi CGGSDd i gynnal trydydd cylch o'i raglen grantiau Ymwybyddiaeth o Ddementia dan Arweiniad y Gymuned. Bydd hynny'n galluogi ac yn gatalydd i weithredu yn y gymuned wedi'i gydlynu yn seiliedig ar leoedd, ac yn helpu magu a chyflymu datblygiad trefi a chymunedau tuag at ddod i ddeall dementia.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £120,589, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2019
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Meddwl am y Dyfodol, Cynllunio at y Dyfodol** Bydd y prosiect hwn yn gwahodd pawb sy'n agosáu at fod yn 73 oed (neu unigolion y nodir y byddant angen ymyrraeth yn iau oherwydd pryderon iechyd gan Feddygon Teulu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol*), i feddwl am y dyfodol drwy gael y sgyrsiau priodol a gosod nodau personol i sicrhau dull rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynllunio ar gyfer eu blynyddoedd hŷn. Drwy feddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gall unigolion wneud dewisiadau cytbwys am eu dyfodol a gwella ansawdd eu bywyd eu hunain wrth iddynt heneiddio, gyda'r nod o barhau i fod yn annibynnol am gyfnod hirach.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £28,051, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Dementia Connect - Y Gorllewin** Mae Dementia Connect yn un pwynt mynediad syml sy'n gweithio law yn llaw â gofal clinigol. Mae'n cysylltu defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys gofalwyr, gyda chymorth ymarferol hanfodol i'w grymuso i reoli eu cyflwr yn annibynnol a pharhau i fod yn weithgar o fewn eu cymunedau. Gall Meddyg Teulu, y Gwasanaethau Cymdeithasol, gofalwr, neu aelodau teulu atgyfeirio unrhyw un a effeithir gan ddementia, cyn neu ar ôl cael diagnosis, at y gwasanaeth, neu fe allant eu cyfeirio eu hunain.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £136,983, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Seibiant Brys** Darpariaeth gofal brys yn y cartref i unigolion sydd wedi cofrestru, pan na all gofalwr y teulu ddarparu'r gofal oherwydd argyfwng.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £92,057, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Dementia Connect - Conwy** Mae Dementia Connect yn wasanaeth cymorth personol newydd gan y Gymdeithas Alzheimer's, i bobl sy'n byw â dementia, eu gofalwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu pobl y mae dementia yn effeithio arnynt â chymorth a chyngor yn rhad ac am ddim, a hynny dros y ffôn, ar lein neu wyneb yn wyneb.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £42,307, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2020
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Grant Cymorth Dementia** Grantiau bychain i helpu pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Y brif nod yw helpu pobl i brynu eitemau na allant eu fforddio, ac a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w gallu i fyw'n dda gyda dementia a pharhau i fod mor annibynnol ag y gallant yn eu cymuned.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £13,811, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Cronfa Hyfforddiant** Potyn o arian i datblygu hyfforddiant ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phobl y mae dementia'n effeithio arnynt. Canolbwyntir yn bennaf ar staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gweithio'n uniongyrchol â phobl sydd â Nam Gwybyddol Ysgafn neu Ddementia.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £20,000, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Nyrs Datblygu Ymarfer Dementia** Penodir Nyrs datblygu ymarfer dementia band 6 i fynd ati i: • Weithio gyda Chartrefi Gofal yn ardal y Gorllewin, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol y gwasanaethau cymdeithasol, i gyflwyno'r cynllun gweithredu Cartrefi Gofal yn unol ag argymhellion adroddiad HASCAS, R1, R2, adroddiad Okenden, R1, AGC, AGIC. • Datblygu'r llwybr cymorth dementia ar gyfer cartrefi gofal sy'n gweithio gyda chydweithwyr BIPBC a chydweithwyr y gwasanaethau cymdeithasol.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Bwrdd Iechyd, Cyllideb a ddyrannwyd: £46,304, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Gweithgareddau Cymunedol Dementia** Mae DementiaGo yn rhan o raglen Gweithgareddau Cymunedol Dementia Cyngor Gwynedd, sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd pobl y mae dementia'n effeithio arnynt drwy weithgarwch corfforol. Sefydlwyd y prosiect yn 2015 ac mae wedi'i ddatblygu i gefnogi 12 o ddosbarthiadau grŵp wythnosol a gyflwynir mewn lleoliadau cymunedol, grŵp cymorth DEEP, digwyddiadau arbennig, cymorth a gweithgareddau ar gyfer cartrefi preswyl a hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia. Mae nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau wedi cynyddu ac mae yna alw am fwy o gyfleoedd mewn rhannau eraill o'r sir. Hefyd, mae adroddiad *Masters in Research* KESS 2 ar Effaith DementiaGo mewn Cartrefi Preswyl ar Drigolion, Staff a Theuluoedd wedi dangos canlyniad cadarnhaol ar gyfer cymorth a datblygiad pellach. Ar hyn o bryd, mae 2.5 aelod staff EFT yn cyflwyno'r rhaglen, ac er mwyn ehangu a bodloni anghenion cymunedau yng Ngwynedd, cynigir cael aelod staff ychwanegol i ymuno a'r tîm fel Swyddog Gweithgarwch Dementia llawn amser. Y prif ddyletswyddau fyddai helpu tîm y Rheolwr i gydlynu a hyrwyddo gweithgareddau cymunedol a chartrefi preswyl, yn ogystal â helpu: • Cynyddu nifer y dosbarthiadau gweithgarwch corfforol • cynnal digwyddiadau arbennig, e.e. dawnsfeydd, gweithgareddau awyr agored, cystadlaethau chwaraeon, tripiau dydd • datblygu 'Atgofion Chwaraeon' a sesiynau Pêl-droed Cerdded yn y Clybiau Pêl-droed • Heriau gweithgarwch corfforol tymhorol yn y Cartrefi Preswyl • Grŵp DEEP newydd yn ardal Arfon • Sesiynau gwybodaeth Cyfeillion Dementia ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Pobl Hŷn, Eraill: Gofalwyr.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £32,287, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Cronfa Hyfforddiant Dementia** Bydd y prosiect hwn yn cynnig cyfleoedd hyfforddi sy'n ymwneud yn benodol â Dementia i aelodau staff o fewn y gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Drwy ddefnyddio adrannau hyfforddi BIPBC a'r Awdurdod Lleol, bydd hyfforddiant penodol i ddementia, gan gynnwys hyfforddiant newydd sy'n dod i'r amlwg, yn cael ei ganfod a'i gaffael ar gyfer staff IaGC.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Y Trydydd Sector / Gwerth Cymdeithasol, Cyllideb a ddyrannwyd: £20,974, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Ebrill 2021
Pobl â dementia (Cynllun Gweithredu Dementia)	Cynllun Gweithredu Dementia	**Swyddog Dementia Actif Môn** Mae rhaglen Dementia Actif Môn ar Ynys Môn yn ceisio gwella ansawdd bywyd pobl y mae dementia yn effeithio arnynt, drwy weithgarwch corfforol, ymarfer corff ystyrlon a chyswllt cymdeithasol. Bydd y prosiect yn sefydlu llwybr atgyfeirio o'r gwasanaethau cof a *Crossroads* i unigolion sydd wedi cael diagnosis o ddementia ac unigolion sy'n aros am asesiad cof ac yn cael cymorth gan Dementia Connect, a gall pobl eu cyfeirio eu hunain at y gwasanaeth hefyd. Bydd y prosiect yn cyflogi swyddog dynodedig o fewn Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) y Cyngor, i ymgysylltu â phobl sy'n byw gyda dementia a sefydliadau partner, a datblygu rhaglen o sesiynau wyneb yn wyneb a rhaglen dros y we.	Pennaf: Pobl â dementia, Eilaidd: Gofalwyr, Eraill: Pobl Hŷn.	Deiliad cyllideb y prosiect: Yr Awdurdod Lleol, Cyllideb a ddyrannwyd: £35,607, Union ddyddiad dechrau'r prosiect: Mehefin 2021
Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig		**Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS)**		Deiliad cyllideb y prosiect, Cyllideb a ddyrannwyd: £651,800
Llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth a dwys	Atebion Llety	**Llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth a dwys** Mae yna brinder darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion ymddygiadol ac emosiynol cymhleth, sy'n arwain at nifer uchel o leoliadau drud y tu allan i'r sir/wlad. Bydd yr arian sefydlu hwn yn cael ei ddefnyddio i gynyddu'r ddarpariaeth arbenigol hon.		Deiliad cyllideb y prosiect, Cyllideb a ddyrannwyd: £435,328
Iechyd a Lles Emosiynol	Iechyd a Lles Emosiynol	**Datblygu Strategaeth Dim Drws Anghywir**		Deiliad cyllideb y prosiect, Cyllideb a ddyrannwyd: £200,000

Blaenoriaeth	Math o Wasanaeth	Enw'r Prosiect a Disgrifiad Ohono	Buddiolwyr	Cyllideb a Ddyrannwyd, Deiliad y Gyllideb a'r Dyddiad Dechrau
Gwasanaeth au Asesu'r Cof - Dementia	Cynllun Gweithredu Dementia	**Gwasanaethau Asesu'r Cof - Dementia**		Deiliad cyllideb y prosiect, Cyllideb a ddyrannwyd: £678,000
Potyn Dementia Cenedlaethol	Cynllun Gweithredu Dementia	**Darpariaeth Gwasanaethau Dementia mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf**		Deiliad cyllideb y prosiect, Cyllideb a ddyrannwyd: £120,796